

'Sdim Curo Plant!  
Children are Unbeatable!

**Pam mae diwygio'r gyfraith i sicrhau  
amddiffyniad cyfartal i blant yn hanfodol  
i hybu rianta cadarnhaol**

#### **DATGANIAD AR Y CYD GAN**

Arbenigwr ar rianta - Yr Athro  
Karen Graham o Brifysgol  
Glyndŵr

Arbenigwr ar rianta - Yr Athro  
Judy Hutchings o Brifysgol  
Bangor

Family Lives

The International Federation  
for Parenting Education

Family and Childcare Trust

Family Links

JIGSO

***\*Mae Cynghrais 'Sdim Curo Plant! yn cynnwys mwy na 600 o sefydliadau a phrosiectau ar draws y DU sy'n ymgychu dros ddileu amddiffyniad "cosb resymol" yn llwyr – y gynghrais fwyaf a ffurfiwyd erioed ar fater cysylltiedig â phlant; mae rhestr lawn ar gael yn [www.childrenareunbeatable.org.uk](http://www.childrenareunbeatable.org.uk)***

## **Pam mae diwygio'r gyfraith i sicrhau amddiffyniad cyfartal i blant yn hanfodol i hybu rhianta cadarnhaol**

Mae'r Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant, Family Lives, Ffederasiwn Rhyngwladol Addysg Magu Plant, JIGSO a Family Links, ymhlith llawer o sefydliadau sy'n cefnogi plant a theuluoedd yn eu barn ei bod hi'n hen bryd dileu amddiffyniad "cosb resymol" er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant o dan y gyfraith ar ymosodiadau\*. Mae arbenigwyr eraill ar fagu plant a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru, yn cynnwys yr Athro Karen Graham o Brifysgol Glyndŵr a'r Athro Judy Hutchings o Brifysgol Bangor, yn cytuno â'r safbwynt hwn.

Rydym ni'n ei weld fel diwygiad y mae ei angen ar frys, nid er mwyn sicrhau lles a diogelwch plant yn unig, ond er lles teuluoedd a chymdeithas yn gyffredinol.

Hawliau dynol sy'n gwneud y diwygiad hwn yn orfodol: cyflawni hawl plant i barch llawn at eu hurddas dynol a'u hintegriti corfforol, ac i amddiffyniad cyfartal o dan y gyfraith. Mae'r Deyrnas Unedig o dan bwysau sylweddol gan gyrff monitro hawliau dynol Ewropeaidd a rhyngwladol i wahardd smacio. Tra bod y gyfraith yn parhau i oddef cosb gorfforol, mae rhaglenni addysg magu plant ac ymdrechion eraill i annog rhieni i symud ymlaen i fabwysiadu dulliau cadarnhaol, di-drais ac effeithiol o ddisgyblu yn cael eu taseilio'n ddifrifol. Ac mae diogelwch lleiafrif o blant y mae eu rhieni yn dal i ddibynnu ar gosb dreisiol mewn perygl.

Nid yw diwygio'r gyfraith ynddo'i hun yn ddigon: mae rhaid cysylltu hynny ag ymgyrchoedd addysg gyhoeddus er mwyn cyflawni newid gwirioneddol ym mharodrwydd cymdeithas i dderbyn cosb gorfforol. Mae rhai yn dadlau y dylem aros i'r sefyllfa ac agweddau newid cyn diwygio'r gyfraith, ac y byddai gwahardd smacio yn rhoi teuluoedd sydd eisoes yn agored i niwed o dan fwy fyth o straen. Ond mae angen amddiffyniad ar blant nawr, a ddynlen nhw ddim gorfod aros, ddim mwy nag y bu'n rhaid i fenywod aros i ddynion gael cynnig dosbarthiadau ar reoli dicter neu gyflogaeth lawn i bawb cyn iddynt hwythau gael amddiffyniad cyfreithiol yn erbyn trais. Ac nid lleihau straen y mae smacio – yn wir, i'r gwrthwyneb. Mae rhieni sy'n rhoi'r gorau i smacio yn ddieithriad yn sôn am berthynas well gyda'u plant ac ymatebion mwy cynhyrchiol i gamymddygiad.

Weithiau mae pobl yn mynegi pryder y bydd gwahardd smacio trwy ddileu amddiffyniad “cosb resymol” yn arwain at rieni'n cael eu herlyn am smacio “dibwys”. Nid yw hyn yn digwydd yn achos ymosodiadau dibwys rhwng oedolion – mae egwyddor gyfreithiol *de minimis* yn golygu nad yw'r gyfraith yn ymdrin â materion dibwys. Ni fydd erlyniad yn digwydd oni bai ei fod er budd y cyhoedd, ac nid oes budd i'r cyhoedd yn sgîl erlyn rhieni am smacio “dibwys”. Ni fydd y trothwy ar gyfer ymchwilio i ymosodiadau ar blant ac ymyrraeth ffurfiol mewn teuluoedd yn newid – fel yn awr, ni fydd ymchwiliad yn cael ei sbarduno ond lle bo rheswm dros gredu y gallai plentyn fod mewn perygl o ddiodef niwed sylweddol. Mae smacio wedi ei wahardd mewn 22 o wledydd eraill yn Ewrop, a dyw'r wybren ddim wedi syrthio.

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i sicrhau mai i'r gorffennol y mae “cosb resymol” yn perthyn.

*\*Mae Cynghair 'Sdim Curo Plant! yn cynnwys mwy na 600 o sefydliadau a phrosiectau ar draws y DU sy'n ymgyrchu dros ddileu amddiffyniad “cosb resymol” yn llwyr – y gynghair fwyaf a ffurfiwyd erioed ar fater cysylltiedig â phlant; mae rhestr lawn ar gael yn [www.childrenareunbeatable.org.uk](http://www.childrenareunbeatable.org.uk).*

*\*Mae Cynghrair 'Sdim Curo Plant!  
yn cynnwys mwy na 600 o  
sefydliadau a phrosiectau ar draws  
y DU sy'n ymgyrchu dros ddileu  
amddiffyniad "cosb resymol" yn  
llwyr – y gynghrair fwyaf a  
ffurfiwyd erioed ar fater cysylltiedig  
â phlant; mae rhestr lawn ar gael yn  
[www.childrenareunbeatable.org.uk](http://www.childrenareunbeatable.org.uk)*

## **Datganiad ar y cyd gan**

Arbenigwr ar rianta - Yr Athro  
Karen Graham o Brifysgol  
Glyndŵr

Arbenigwr ar rianta - Yr Athro  
Judy Hutchings o Brifysgol  
Bangor

Family Lives

Ymddiriedolaeth y Teulu a  
Gofal Plant

The International Federation  
for Parenting Education

Family Links

JIGSO